

Pantomeim

Gan eu bod wedi ymddwyn mor dda yn ystod y tymor, bu disgyblion yr holl ysgol yn Pontio ym Mangor yn gwylio pantomeim Mellith y Brenin Lludd ddiwedd y tymor. Roedd hi'n bantomeim hwylus iawn, gyda llawer o dynnu coes y gynulleidfa, digon o jôcs gwirion a chanu a dawnsio gwerth chweil. Cafodd y disgyblion andros o amser da a phawb wedi mwynhau.

Cyngerdd Nadolig

Ar ôl wythnosau o ymarfer a pharatoi gan y plant cynhaliwyd cyngerdd Nadolig llwyddiannus dros ben yng nghapel Shiloh. Roedd thema'r sioe yn seiliedig ar ddarganfod sut mae gwledydd y Byd yn dathlu'r Nadolig. Yn ôl y gymeradwyaeth a gafwyd ar ddiwedd y perfformiad roedd y gynulleidfa yn amlwg wedi mwynhau. Diolch i Jones and Whitehead am eu cymorth gyda'r llwyfan ac i swyddogion Capel Shiloh am eu cydweithrediad, yn ogystal i'r rhieni am ddarparu gwisgoedd gwerth chweil!

Ymweliad Capel y Ffynnon

Cafodd blynyddoedd 1 a 2 ymweld â Chapel y Ffynnon ym Mangor yn ddiweddar. Yno cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgareddau Nadoligaidd gan ddysgu am stori'r geni, a chymryd rhan mewn drama a gwisgo gwisgoedd bendigedig. Roeddynt wrth eu boddau yn cael gwneud amrywiaeth o weithgareddau.

Saer y Sêr

Bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn gweld perfformiad 'Saer y Ser' yn Neuadd Ogwen cyn i'r ysgol gau am y gwyliau. Yr oedd yn berfformiad lliwgar, bywiog a chyffrous iawn ac yr oedd y disgyblion a'r aelodau o staff wedi cael prynhawn difyr iawn.

Dathlu'r Nadolig yn yr ysgol

Cafwyd cinio Nadolig gwerth chweil wedi ei baratoi gan staff y gegin eto eleni a phawb wedi bwyta gormod. Cafwyd hefyd barti Nadolig yr wythnos olaf gyda phawb wedi gwisgo siwmpwr Nadolig i godi arian at elusen 'Text Santa' a chael dawnsio a chwarae gemau drwy'r pawns. Roedd cynnwrf mawr at ddiwedd y dydd pan gyraeddodd Sion Corn yr ysgol i weld yr oll ddisgyblion.